# Atodiad 10: Cod Ymddygiad ar gyfer Bwrdd Ofcom

## Pwrpas y Cod Ymddygiad a'r Cynnwys

1. Mae'r Cod Ymddygiad yn nodi'r saith egwyddor ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus ("egwyddorion Nolan") y mae'n rhaid i Aelodau'r Bwrdd lynu wrthynt a'r gofynion o ran cyfrinachedd, gwrthdaro buddiannau (sy'n ymwneud â'r gofrestr buddiannau, datganiadau a rheoli gwrthdaro, buddiannau gwleidyddol, buddiannau ariannol a rolau newydd), rhoddion a lletygarwch, treuliau, siarad yn allanol, codi pryderon am gamymarfer posibl a diogelwch.

## Saith egwyddor bywyd cyhoeddus

2. Mae 7 egwyddor bywyd cyhoeddus yn berthnasol i unrhyw un sydd â swydd gyhoeddus. Dyma nhw:

**Anhunanoldeb**

3. Dim ond gweithredu er budd y cyhoedd y dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ei wneud.

**Uniondeb**

4. Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt wrth iddynt wneud eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn cael manteision ariannol neu unrhyw fanteision perthnasol eraill iddynt eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthynas.

**Gwrthrychedd**

5. Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu neu ragfarn.

**Atebolrwydd**

6. Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau ac am yr hyn y maent yn ei wneud, a rhaid iddynt ganiatáu i eraill graffu arnynt yn y modd sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau hynny.

**Bod yn agored**

7. Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw rhag y cyhoedd oni bai fod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

**Gonestrwydd**

8. Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn eirwir.

### Arweinyddiaeth

9. Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ymddwyn yn unol â'r egwyddorion hyn. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn yn gadarnhaol a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pryd bynnag y'i gwelir.

## Gwrthdaro buddiannau

10. Rhaid i Ofcom gadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel.
11. Ni ddylai fod unrhyw reswm dilys i unrhyw un allu awgrymu bod buddiannau neu safbwyntiau preifat wedi dylanwadu ar benderfyniadau Ofcom.
12. Ni ddylai Aelodau'r Bwrdd wneud elw drwy'r wybodaeth sydd ar gael iddynt fel Aelodau'r Bwrdd.
13. Mae'n ofynnol i Aelodau'r Bwrdd lynu wrth God Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus, sy'n cynnwys gofynion ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau, yn ogystal â Chod Ymddygiad Ofcom ei hun ar gyfer Aelodau'r Bwrdd.

## Cyfrinachedd

14. Bydd disgwyl i Aelodau'r Bwrdd gadw'n gyfrinachol yr holl wybodaeth a deunyddiau a ddarperir iddynt fel Aelodau'r Bwrdd.
15. Mae Adran 393 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn gosod cyfyngiadau ar unigolion o ran datgelu unrhyw wybodaeth heb gael caniatâd y sawl sydd wedi darparu'r wybodaeth.
16. Os bydd unrhyw wybodaeth yn cael ei datgelu yn groes i'r ddarpariaeth honno, mae hynny'n drosedd a allai arwain at hyd at ddwy flynedd o garchar a/neu ddirwy.
17. Bydd y cyfyngiadau hyn yn dal i fod yn berthnasol ar ôl i Aelodau'r Bwrdd roi'r gorau i fod yn Aelodau o Fwrdd Ofcom, mewn perthynas â'r wybodaeth gyfrinachol a gawsant pan oeddent yn y swydd. Pwrpas hyn yw osgoi'r risg bod cwmni penodol yn cael mantais amhriodol dros ei gystadleuwyr drwy gyflogi rhywun a oedd – wrth gyflawni ei ddyletswyddau i Ofcom – wedi gallu cael gafael ar wybodaeth dechnegol neu wybodaeth arall y byddai'n deg i'r cystadleuwyr hynny ei hystyried yn gyfrinach fasnachu, neu wybodaeth ynghylch datblygiadau arfaethedig ym mholisi'r Llywodraeth a allai effeithio ar y cwmni hwnnw neu ei gystadleuwyr.

## Pryderon am gamymarfer posibl

18. Os yw aelod am godi pryder am gamymarfer posibl, dylai godi ei bryderon â'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd i ddechrau, fel sy'n briodol.

## Polisi diogelwch

19. Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd ddarllen a chydymffurfio â Pholisi Diogelwch Ofcom. Mae'r polisi hwn yn rhoi sylw i nifer o feysydd, gan gynnwys defnydd derbyniol o systemau gwybodaeth, diogelwch gwybodaeth, dal gafael a chael gwared ar wybodaeth, delio â thrydydd partïon a diogelwch eiddo.

# Gwrthdaro buddiannau

## Proses a gofynion

20. Mae Bwrdd Ofcom yn gallu awdurdodi gwrthdaro buddiannau. Mae Paragraff 17 o Atodlen 1 i Ddeddf Ofcom 2002 yn nodi bod yn rhaid i rywun sydd â buddiant beidio â chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth neu benderfyniad perthnasol oni bai fod Aelodau eraill y Bwrdd sy'n bresennol yn penderfynu y dylid diystyru'r buddiant.

21. Gall y Cadeirydd, Ysgrifennydd y Gorfforaeth a'r Cwnsler Cyffredinol ystyried a rhoi cyngor ar yr hyn sy'n cynrychioli gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol ac a oes modd rheoli hyn (er enghraifft, drwy gyfyngu ar fynediad at ddeunyddiau, neu esgusodi rhag trafodaeth a/neu benderfyniad).

22. Mae'r tîm Llywodraethu ac Atebolrwydd yn cadw cofrestr o fuddiannau. Rhaid i Aelodau'r Bwrdd ddarparu'r rhain cyn eu penodi ar gyfer eu hunain ac aelodau agos o'u teulu (h.y. partneriaid a phlant sy'n ddibynyddion ) a gofynnir iddynt roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth am unrhyw newidiadau i'w cofrestr buddiannau. Wrth ymuno ag Ofcom gofynnir hefyd i Aelodau Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau gwleidyddol sydd ganddynt, neu fuddiannau sydd gan eu priod/partner neu blant sy'n ddibynyddion, mewn perthynas â'r canlynol:

    a) penodiadau i fwrdd neu swydd
    b) cyflogaeth a/neu waith ymgynghori
    c) yn ymddangos yn rheolaidd ar y teledu a'r radio, neu'n ysgrifennu colofnau papur newydd
    d) buddiannau ariannol perthnasol
    e) unrhyw benodiadau elusennol a/neu gyhoeddus.

23. I gydymffurfio â statws Ofcom fel rheoleiddiwr annibynnol, mae'n amhriodol i unrhyw Aelod Bwrdd gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys dal swydd wleidyddol ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol neu ymgeisio am swydd o'r fath, cymryd rhan mewn ymgyrch wleidyddol i gefnogi plaid wleidyddol, a chyfrannu mwy na £11,180 i blaid wleidyddol mewn blwyddyn galendr[1]. Mae gweithio'n llawn-amser i unrhyw adran o'r Llywodraeth Ganolog, neu fel swyddog yn y gwasanaeth sifil (gan gynnwys yn y gwledydd datganoledig) neu i lywodraeth leol, yn annerbyniol hefyd.

24. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Risg adolygu gwrthdaro buddiannau a'r gofrestr buddiannau bob blwyddyn. Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd (ac aelodau o bwyllgorau cynghori Ofcom) lofnodi eu cofrestr buddiannau bob blwyddyn. Cyhoeddir y gofrestr buddiannau datgeladwy ar wefan Ofcom.

25. Datgan buddiannau yw'r eitem gyntaf ar agendâu'r Bwrdd a'r Pwyllgor sy'n caniatáu i Aelodau'r Bwrdd fynegi buddiannau newydd a/neu dynnu sylw at unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n gysylltiedig â thrafodaethau yn y cyfarfod. Yn ogystal â buddiannau uniongyrchol, dylai Aelodau'r Bwrdd ddatgan lle mae gan gysylltiad agos fuddiant (e.e. aelod o'r teulu, partner neu ffrind agos).

[1] Rhaid cyhoeddi enw rhoddwr ar wefan y Comisiwn Etholiadol os yw'r rhoddion, yn unigol neu ar y cyd, a gaiff eu gwneud gan yr unigolyn hwnnw dros flwyddyn galendr yn cyfateb i swm sy'n uwch na'r ffigur hwn a ddynodir gan y Comisiwn ar unrhyw adeg benodol.

26. Rhaid i Aelodau'r Bwrdd ddatgelu i Ysgrifennydd y Gorfforaeth fanylion unrhyw fuddiannau ariannol uniongyrchol sydd ganddyn nhw, eu partner neu eu plant sy'n ddibynyddion mewn cwmni sy'n darparu gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio neu ei drwyddedu gan Ofcom (ac eithrio'r cwmnïau hynny sy'n mynnu bod angen Trwydded Telegraffiaeth Ddi-wifr yn unig i weithredu) pan fyddant yn ymuno â'r Bwrdd. At y dibenion hyn, mae buddiant ariannol uniongyrchol yn fater ariannol:

- sy'n eiddo uniongyrchol i Aelod, ei bartner neu blant sy'n ddibynyddion (e.e. cyfranddaliadau);
- sydd o dan reolaeth Aelod, ei bartner neu blant sy'n ddibynyddion (gan gynnwys, er enghraifft, buddiannau ariannol a reolir yn ôl disgresiwn gan Aelod neu ei bartner ar gyfer pobl eraill); neu
- sy'n eiddo llesiannol i Aelod, ei bartner neu blant sy'n ddibynyddion drwy gyfrwng buddsoddi, ymddiriedolaeth, neu gyfryngwr arall, pan fydd yr Aelod neu ei bartner naill ai'n rheoli'r cyfryngwr neu'n meddu ar yr awdurdod i oruchwylio neu gymryd rhan ym mhenderfyniadau buddsoddi'r cyfryngwr.

27. Ni chaniateir i Aelodau'r Bwrdd, eu partneriaid na phlant sy'n ddibynyddion ddal (neu reoli ar ran eraill) buddiant ariannol uniongyrchol (e.e. cyfranddaliadau) na buddiant ariannol anuniongyrchol (e.e. ymddiriedolwr ymddiriedolaeth ddall) mewn cwmnïau Categori A oni bai y rhoddir caniatâd gan y Cadeirydd (a fydd dim ond yn cael ei roi mewn amgylchiadau eithriadol lle mae bwriad o drosglwyddo'r cyfranddaliadau). Bydd y Cadeirydd yn cael cyngor gan y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth. Yn achos y Cadeirydd, y Cwnsler Cyffredinol a'r Cadeirydd fydd yn penderfynu a ddylid cadw'r cyfranddaliadau.

28. Gellir caniatáu i bob Aelod, eu partneriaid a phlant sy'n ddibynyddion ddal buddiannau ariannol uniongyrchol mewn cwmnïau Categori B, gyda chaniatâd Ofcom.

| | |
|---|---|
| Categori A | Cwmnïau sy'n darparu gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio gan Ofcom (ac eithrio'r cwmnïau hynny sydd angen Trwydded Telegraffiaeth Ddi-wifr yn unig i weithredu).<br><br>Gall y rhain fod yn gwmnïau y mae eu busnes sy'n cael ei reoleiddio gan Ofcom wedi'i leoli yn y DU yn bennaf (fel ITV plc, STV Group plc, Royal Mail plc, Tesco plc, Manchester United plc) neu gwmnïau sy'n rhan o grwpiau rhyngwladol ehangach sy'n weithredol ac yn cael eu rheoleiddio gan Ofcom yn y DU (fel Vodafone Group plc, Liberty Global Inc., Telefonica S.A., Amazon.com Inc, Alphabet Inc (y mae ei is-gwmnïau'n cynnwys Google a YouTube), Meta Platforms Inc. (y mae ei is-gwmnïau'n cynnwys Facebook, Instagram a WhatsApp).<br><br>Rhagor o ddarparwyr gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys Alphabet Inc. (y mae ei is-gwmnïau'n cynnwys Google ac YouTube), Meta Platforms Inc. (y mae ei is-gwmnïau'n cynnwys<br>Facebook, Instagram a WhatsApp) X.com. |
| Categori B | Cwmnïau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yng Nghategori A uchod, ond sy'n rhan o'r sector cyfathrebiadau, cyfryngau, ar-lein neu bost e.e. cynhyrchydd annibynnol a fasnachir yn gyhoeddus. |

29. Os yw Aelod Anweithredol o’r Bwrdd yn ystyried ymgymryd â rôl ychwanegol, dylai yn y lle cyntaf gysylltu ag Ysgrifennydd y Gorfforaeth a fydd yn trafod hyn gyda nhw a’r Cadeirydd i ystyried a fyddai hyn yn gydnaws â bod yn Aelod o Fwrdd Ofcom. Yn gyffredinol, ni fydd cymryd rôl mewn cwmni y mae Ofcom yn rheoleiddio rhan sylweddol o’i weithgarwch yn cael ei ystyried yn gydnaws â bod yn Aelod o Fwrdd Ofcom. Mae gwrthdaro’n debygol o godi pe bai Aelod Bwrdd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol yn y sector cyfathrebiadau neu’r sector post neu ar gyfer gwasanaeth wedi’i reoleiddio:

- ymuno â’r Bwrdd
- ymuno â bwrdd cynghori
- cael gwaith
- gwneud gwaith ymgynghori
- ymuno ag unrhyw gorff, sefydliad, elusen neu grŵp arall sydd â chysylltiad amlwg â’r sector cyfathrebiadau a’r sector post neu â llwyfan technoleg sy’n rheoli cynnwys rhyngrwyd.

30. Bydd ymgymryd â rolau mewn cwmnïau neu sefydliadau eraill yn y sectorau mae Ofcom yn eu rheoleiddio, neu sy’n gysylltiedig â’r sectorau hyn, yn dibynnu ar i ba raddau mae’r cwmni neu’r sefydliad yn ymwneud â’r penderfyniadau mae Ofcom yn eu gwneud, neu’n cael eu heffeithio ganddynt, ynghyd ag amlygrwydd y cwmni (e.e. os oes gan gyflenwr gysylltiad agos â chwmni neu wasanaeth unigol sy’n cael ei reoleiddio gan Ofcom).

31. Rhaid i Aelodau’r Bwrdd ddatgan a yw eu partner wedi’i gyflogi, neu’n cael ei gyflogi, gan gwmni y mae Ofcom yn rheoleiddio rhan sylweddol o’i weithgarwch (ac eithrio’r cwmnïau hynny sydd angen trwydded Telegraffiaeth Ddi-wifr yn unig).

32. Rhaid i Aelodau Gweithredol y Bwrdd hefyd gydymffurfio â pholisi gwrthdaro buddiannau cydweithwyr sy’n nodi gofynion ar gyfer cydweithwyr mewn meysydd fel ymarferion caffael a darpar gyflogaeth. Pan fydd Aelod Gweithredol o’r Bwrdd wedi gwneud cais neu wrthi’n trafod rôl benodol mewn cwmni sy’n cael ei reoleiddio gan Ofcom neu mewn sector y mae rheoleiddio Ofcom yn effeithio’n sylweddol arno, dylai roi gwybod i’r Prif Swyddog Gweithredol (a’r Prif Weithredwr, y Cadeirydd) a fydd yn trin yr wybodaeth hon yn ddoeth ac yn penderfynu – fel sy’n berthnasol mewn trafodaeth â’r Cadeirydd – a oes angen cymryd unrhyw gamau i osgoi gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosiadol. Os nad yw’r Aelod Gweithredol o’r Bwrdd yn siŵr a oes angen iddo wneud datgeliad, dylai geisio cyngor y Cwnsler Cyffredinol.

33. Ni ddylai Aelodau’r Bwrdd dderbyn unrhyw rodd na lletygarwch a fyddai’n creu rhwymedigaeth ar y rhoddwr neu’n amharu ar ei farn neu ei ddidueddrwydd personol neu broffesiynol (am ganllawiau manylach ar roddion a lletygarwch, gweler paragraffau 50 i 51 isod).

34. Os bydd Aelod yn ansicr ynghylch sut mae dehongli’r canllawiau hyn (yn benodol, pa fuddsoddiadau sydd wedi’u cynnwys ym mha gategorïau) neu os bydd angen iddo gael gwared ag unrhyw gyfranddaliadau sydd ganddo yn y sector cyfathrebiadau neu’r sector post neu mewn unrhyw gwmni y mae Ofcom yn ei reoleiddio er mwyn cydymffurfio â’r amodau hyn, dylai ofyn am arweiniad gan Ysgrifennydd y Gorfforaeth.

## Cyfathrebiadau allanol

35. Bydd y cyfathrebiadau rhwng Ofcom a’r Ysgrifennydd Gwladol, neu swyddogion cyfatebol yn y gweinyddiaethau datganoledig, yn cael eu gwneud drwy’r Cadeirydd fel arfer, ac eithrio pan fydd

Ofcom wedi cytuno y dylai Aelod unigol o'r Bwrdd weithredu ar ei ran. Er hynny, mae gan Aelod unigol yr hawl i asesu'r Gweinidogion ar unrhyw fater y mae ef neu hi yn credu sy'n codi materion pwysig o ran ei ddyletswyddau ef neu hi fel Aelod o Ofcom. Mewn achosion o'r fath, byddai gofyn i weddill Aelodau'r Bwrdd gytuno fel arfer.

36. Y Prif Weithredwr, neu aelodau eraill o'r staff sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar ran Ofcom, fydd y prif bwynt cyswllt fel arfer rhwng Ofcom a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg neu'r adrannau perthnasol yn y gweinyddiaethau datganoledig ar faterion o ddydd i ddydd.

## Siarad yn gyhoeddus neu ymddangos ar y teledu, radio, ar-lein ac mewn print ar ran Ofcom

37. Fel egwyddor gyffredinol, y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr fydd yn siarad yn gyhoeddus ar ran Ofcom fel arfer.

38. O bryd i'w gilydd, bydd gofyn i Aelodau eraill siarad ar ran Ofcom mewn digwyddiadau i randdeiliaid neu ddigwyddiadau yn y diwydiant, a dylent fod yn ofalus iawn wrth dderbyn unrhyw wahoddiad i siarad yn gyhoeddus, gan gynnwys siarad â newyddiadurwyr, yn rhinwedd Aelod Ofcom.

39. Mewn unrhyw sefyllfa o'r fath, dylai Aelodau, i ddechrau, drafod ag ysgrifennydd y Gorfforaeth a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau, fel y bo'n briodol. Ym mhob achos, ni ddylai Aelodau ddatgan unrhyw safbwyntiau nad ydynt yn cyd-fynd â pholisïau Ofcom neu a allai roi argraff o benderfyniadau, pleidgarwch neu ogwydd gwleidyddol.

40. Dylai Aelodau hefyd osgoi datgan eu barn bersonol yn gyhoeddus ar faterion pan nad yw polisi Ofcom ar hynny wedi cael ei bennu (gan gofio ei bod yn bosib iawn bod Aelodau wedi bod yn cynnig cyngor – ac wedi cael gweld gwybodaeth – fel rhan o'r broses o ddatblygu'r polisi), a honno'n farn sy'n seiliedig ar rôl yr Aelod yn Ofcom. Ni ddylai Aelodau ddatgan barn bersonol pan allai hynny niweidio enw da Ofcom.

## Mewn rhinwedd bersonol ar faterion heb fod yn gysylltiedig ag Ofcom

41. Nid yw Aelodau'n cael eu gwahardd yn llwyr rhag delio â'r cyfryngau mewn rhinwedd bersonol nad yw'n ymwneud ag Ofcom, nac wrth ddilyn diddordeb proffesiynol – er enghraifft, fel perfformwyr, arbenigwyr, beirniaid/adolygwyr (critics) neu sylwebwyr. Nid yw Aelodau'n cael eu gwahardd yn gyfan gwbl rhag: ymddangos ar y teledu neu'r radio; cynhyrchu rhaglenni teledu, radio neu ar-alw; ysgrifennu blogiau/colofnau ar-lein neu mewn cylchgronau neu bapurau newydd; neu wneud cyfraniadau ar gyfryngau cymdeithasol (e.e. X, Facebook, LinkedIn a Google ac ati) (gyda'i gilydd, y 'gweithgareddau a ganiateir').

42. Gall Aelodau fynegi safbwyntiau personol ar yr amod eu bod yn dweud yn glir eu bod yn siarad neu'n ysgrifennu mewn rhinwedd bersonol yn unig, a'u bod yn datgan eu barn breifat eu hunain ar faterion nad ydynt yn rhan o ystod o gyfrifoldebau Ofcom, neu ar faterion sy'n ddadleuol o safbwynt diwydiannol, gwleidyddol neu gyhoeddus sy'n berthnasol iddynt. Pan fydd Aelodau'n dewis datgan barn bersonol, byddwn yn dibynnu ar eu synnwyr cyffredin; rydym yn disgwyl iddynt gymryd gofal wrth wneud hynny. Er enghraifft, dylid osgoi sylwadau a allai gael effaith negyddol ar enw da Ofcom (gan nodi y dylai'r holl sylwadau neu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol gael eu hystyried yn rhai cyhoeddus), a sylwadau ar bolisïau Ofcom. Dylid hefyd osgoi datganiadau o farn ar faterion sy'n ddadleuol o safbwynt gwleidyddol neu gyhoeddus y

gellid ystyried eu bod yn peryglu enw da'r Bwrdd am ddidueddrwydd ar benderfyniadau golygyddol a phenderfyniadau eraill yn y byd darlledu, neu ei wrthrychedd wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio economaidd. Cyn postio ar-lein, efallai y bydd Aelodau'n dymuno ystyried:

- A yw hwn yn fater hynod wleidyddol, sensitif neu gynhennus y mae gan bobl farn wahanol iawn yn ei gylch?
- A yw hwn yn fater y mae gan Ofcom swyddogaeth reoleiddio uniongyrchol mewn perthynas ag ef?
- Gan ystyried fy rôl, a allai postio am y mater hwn gwestiynu didueddrwydd neu annibyniaeth Ofcom, neu ganfyddiad y cyhoedd?

43. I helpu gyda'r uchod, ac yn benodol mewn perthynas ag unrhyw erthygl arfaethedig ar-lein neu mewn papur newydd neu gylchgrawn, bydd Aelodau'n cael gwahoddiad i dynnu sylw Ysgrifennydd y Gorfforaeth a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau at erthyglau o'r fath, a dylent wneud yr un fath yng nghyswllt unrhyw gynnig i ymddangos ar raglenni teledu neu radio, neu i fod yn rhan o'u cynhyrchu. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt drafod a yw ymgysylltiad o'r fath yn dderbyniol.

## Mynd i gynadleddau

44. Dylai pob gwahoddiad i fynd i ddigwyddiadau i randdeiliaid neu ddigwyddiadau'r diwydiant neu i siarad ynddynt gael ei ddangos i'r Prif Weithredwr i ddechrau neu, yn ei absenoldeb, i'r Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau, i gael cyngor. Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod gan Ofcom gynrychiolaeth briodol mewn digwyddiadau, a bod Aelodau'n cael eu briffio'n briodol cyn mynd iddynt.

## Rheolau purdah

45. Dylai Aelodau'r Bwrdd osgoi ymweld a/neu gymdeithasu â rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau cyn etholiadau neu 'purdah' a defnyddio'u disgresiwn wrth dderbyn gwahoddiadau i ymweld a/neu gymdeithasu â rhai rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau purdah. Mae cyfnodau purdah fel a ganlyn:

    - Cyfnodau rhwng cau ceisiadau a dyfarnu trwyddedau ar gyfer trwyddedau teledu, radio a thelegyfathrebiadau lle mae'r rhanddeiliaid sy'n gwahodd cais yn cymryd rhan fel ymgeisydd; a
    - Cyfnodau penodol pan fydd Ofcom yn gwneud penderfyniad arwyddocaol sy'n ymwneud â'r rhanddeiliad hwnnw neu a fydd yn effeithio arno.

46. Os oes gan Aelod o'r Bwrdd unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb gwahoddiad/digwyddiad, dylai ofyn am arweiniad gan Ysgrifennydd y Gorfforaeth. Fodd bynnag, pan fydd Aelod o'r Bwrdd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses benderfynu ar gyfer unrhyw fater penodol, ni ddylai dderbyn na chynnig lletygarwch i'r rhanddeiliad dan sylw o dan unrhyw amgylchiadau, ond nid yw hyn yn eithrio cyfarfodydd busnes arferol.

## Atebolrwydd troseddol a sifil

47. Er bod unrhyw achos cyfreithiol a gychwynnir gan drydydd parti yn debygol o gael ei ddwyn yn erbyn Ofcom fel endid corfforaethol, mewn achosion eithriadol gellir dwyn achos (sifil neu,

mewn rhai amgylchiadau, achos troseddol) yn erbyn y Cadeirydd neu Aelodau unigol eraill. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd Aelodau'n atebol yn bersonol os byddant yn gwneud datganiad twyllodrus neu esgeulus sy'n arwain at golled i drydydd parti. Mae'n bosibl y bydd Aelodau hefyd yn atebol am dorri cyfrinachedd o dan gyfraith gwlad, neu o dan ddeddfwriaeth masnachu mewnol, os byddant yn camddefnyddio gwybodaeth a gawsant yn rhinwedd eu rôl.

48. Fodd bynnag, ni fydd Aelodau sy'n gweithredu'n onest, yn rhesymol ac yn ddidwyll a heb esgeulustod yn gorfod bodloni unrhyw atebolrwydd sifil personol a fydd yn codi wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau i Ofcom, neu wrth eu cyflawni'n honedig. Bydd Ofcom yn indemnio'r Aelodau yn erbyn hawliadau yn yr amgylchiadau hyn.

## Treuliau

49. I hawlio treuliau teithio a threuliau eraill, mae'n rhaid i'r gwariant fod yn rhesymol ac yn angenrheidiol ar ran Ofcom yn unol â Pholisi Treuliau Ofcom. Ni ellir teithio gyda thocynnau dosbarth cyntaf yn gyffredinol, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hynny'n cael ei dderbyn. Mae'n rhaid gwneud pob hawliad treuliau ar ffurflen hawlio briodol Ofcom, a rhaid eu cyflwyno o fewn 90 diwrnod i ddyddiad y gwariant. Mae'n annhebygol y bydd treuliau a gyflwynir yn hwyrach na hynny'n cael eu talu.

## Rhoddion

50. Mae'n bolisi gan Ofcom i beidio â derbyn rhoddion gan unigolyn na sefydliad, ac i beidio â darparu rhoddion o'r fath oni bai fod gwerth de minimis. Os bydd unigolyn neu sefydliad yn mynnu rhoi rhodd i Aelod yn rhinwedd ei rôl fel Aelod, a bod y rhodd yn werth mwy na £10, dylid ei rhoi i elusen a ddewisir gan Ofcom. Gellir derbyn rhoddion sy'n werth llai na £10.

51. Rhaid i'r holl roddion sy'n werth mwy na £10 gael eu datgan a'u cofnodi ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

## Lletygarwch

52. Mae'r problemau a'r manteision sy'n gysylltiedig â derbyn lletygarwch yn amrywio'n fawr ar draws y diwydiannau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom.

53. Dylai Aelodau roi sylw gofalus i'r cyngor yn y paragraff canlynol wrth benderfynu a ydynt am dderbyn cynigion lletygarwch ai peidio. Dylid tybio na ellir derbyn cynigion lletygarwch gan y sefydliadau hynny y mae Ofcom yn eu rheoleiddio. Rhaid i'r Aelod ysgwyddo'r baich o egluro pam y dylid derbyn cynnig o letygarwch.

54. Dylai Aelodau ystyried y canllawiau cyffredinol a ganlyn, a all helpu i asesu rhinweddau cymharol derbyn gwahoddiad:

- **Categori 1:** Mae'n bosibl y gellir derbyn lletygarwch mewn digwyddiadau sy'n cynnig cyfleoedd i rwydweithio â rhanddeiliaid Ofcom, ac felly a allai hyrwyddo neu gyfrannu at waith Ofcom. Er enghraifft, mynd i ginio gwobrau diwydiant.
- **Categori 2:** Mae lletygarwch sy'n gysylltiedig â gwaith a gynigir gan un rhanddeiliad neu drwyddedai yn dderbyniol, pan fydd yn amlwg bod hynny o werth i waith Ofcom ac i'r diwydiant dan sylw yn ehangach. Er enghraifft, cinio gwaith.
- **Categori 3:** Dylid gwrthod yn gwrtais unrhyw letygarwch sydd o fudd personol i'r derbynnydd os bydd yn anodd cyfiawnhau'r budd i Ofcom, neu os oes risg o duedd ymddangosiadol neu sylw niweidiol. Er enghraifft, gwahoddiadau gan randdeiliaid

Ofcom i ddigwyddiadau diwylliannol neu chwaraeon, fel cael cynnig tocynnau i ddigwyddiad Proms y BBC, i rownd derfynol Cwpan yr FA, neu i gyngerdd yn yr O2 Arena.

## Cofrestr rhoddion a lletygarwch

55. Bydd Ofcom yn cadw cofrestr o roddion a lletygarwch, lle dylai pob cynnig o letygarwch perthnasol y mae Aelodau Bwrdd wedi'i dderbyn, neu wedi'i ddarparu, gael ei gofnodi at ddibenion atebolrwydd a chysondeb. Bydd y gofrestr hon ar gael i'r cyhoedd.

56. Mae'r gofrestr hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan Ofcom. Mae'n rhaid i Aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth am yr holl roddion a lletygarwch y maent yn eu derbyn neu'n eu darparu.

57. Gall Ysgrifennydd y Gorfforaeth roi cyngor i Aelodau ynghylch rhoddion a lletygarwch perthnasol. Dylid tynnu sylw Ysgrifennydd y Gorfforaeth at unrhyw rai y bydd Aelodau yn eu derbyn, a bydd yr Ysgrifennydd yn diweddaru'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn rheolaidd. Nid sensora yw bwriad y broses hon, ond sicrhau yn gyntaf bod gan Ofcom lefel briodol o gynrychiolaeth mewn digwyddiadau neu swyddogaethau, ac yn ail, sicrhau na ellir awgrymu unrhyw duedd wirioneddol nac ymddangosiadol o safbwynt unrhyw randdeiliad penodol.

## Diogelu data

58. At ddibenion cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae Aelodau'n rhoi caniatâd i Ofcom gadw, prosesu a chael mynediad at eu data personol at unrhyw ddibenion.

## Cyfyngiadau gadael

59. Ar ôl i'w swydd ddod i ben, rhaid i Aelodau ddychwelyd yr holl eiddo (gan gynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu i hynny: dogfennau a meddalwedd, cardiau credyd, cyfarpar cyfrifiadurol, allweddi a chardiau diogelwch) sy'n eiddo i Ofcom.